Cyngor Cymuned Llanwnda

COFNODION
CYFARFOD BLYNYDDOL
MAI 2008

DYDDIAD	Nos Fercher, 14eg Mai, 2008
AMSER	7yh
LLEOLIAD	Neuadd **RHOSTRYFAN** (
AELODAU'N BRESENNOL	Jason Hunt (Cad), Jane Eryl Jones, Meurig Williams, Gwilym V.Thomas, Nerys Evans, Neal Williams
HEFYD YN BRESENNOL	Cyng. Aeron M.Jones Bethan Williams, Clerc

1. **Ethol Swyddogion**
Etholwyd Jason Hunt fel Cadeirydd am y flwyddyn a derbyniodd Meurig Williams y swydd o Is-Gadeirydd. Cyfetholwyd Neal Williams fel aelod ar ward Rhosgadfan. Pob aelod wedi arwyddo datganiad derbyn swydd. Angen aelod newydd ar gyfer ward Dinas – clerc i holi ymhellach.

2. **Ymddiheuriadau**
Tom Ellis, Huw Williams

3. **Croeso**

---

4. **Datgan Buddiant**

5. **Cadarnhau cofnodion**

6. **Materion i'w trafod:**
   - **a)** Ymateb ynglyn a'r gwyn yn ymwneud a'r gwaith lledu rhwng Rhosgadfan a Rhostryfan. Nododd AMJ nad oedd cyfarfod wedi'i digwydd eto rhwng y trigolion a'r swyddogion priodol.
   - b) NE – nododd fod angen adnewyddu'r arwydd sy'n dynodi 'anaddas i gerbydau mawr' ar Lôn Ty'n Clwt, Rhos Isaf. Wedi derbyn cadarnhâd gan Gyngor Gwynedd fod y gwaith yn mynd i gael ei wneud yn fuan.
   - **c)** NE – rwbel ar ochr y ffordd islaw na Mynwent Cefnfaes. Gwaith clirio wedi'i wneud.
   - d) EE – car wedi mynd ar dân ger Tyddyn Seipar/Ty'n Rhos a dwr ar y ffordd ger Felinwnda - wedi derbyn ymateb gan Gyngor Gwynedd. Maent yn mynd i gael golwg ar y safle a chlirio os oes angen.
   - e) GVT – rampiau arafu ger Dreflan a Saron. Adrian Wyn Williams wedi gaddo y bydd stripiau yn cael eu gosod ar y ffordd yn fuan i fonitro cyflymdra, ac yna i ystyried unrhyw gamau sydd angen eu gwneud.
   - **f)** MW – torri gwair ym mhentref Rhosgadfan – sicrhau ei fod ar y rhestr waith – wedi derbyn cadarnhâd y bydd Rhosgadfan ar restr gwaith Cyngor Gwynedd.
   - **g)** NW – biniau cae chwarae Rhosgadfan – sicrhau eu bod yn cael eu gwagio'n rheolaidd.
   - **h)** Cais i gael cyfeiriad e-bost ar y cofnodion. Clerc wedi gwneud nodyn.

i) MW a HW Llwybrau Rhosgadfan. Clerc wedi ysgrifennu i'r perchnogion i geisio dwyn perswad arnynt i gadw'r llwybrau'n glir ger Gors Goch Uchaf a Fach Goch. Perchennog Fach Goch wedi ffonio i nodi fod y darn tir sy'n perthyn i Fach Goch yn glir a does dim ceffylau ar ei dir. Cafwyd llythyr gan berchennog Gors Goch Uchaf yn nodi fod y llwybr wedi'i glirio ac roedd yn cwyno am bobl sy'n mynd a'u cwn yno i faeddu. Clerc i anfon llythyr i ddiolch ac i drefnu fod arwyddion dim baeddu yn cael eu gosod yno.

j) Cwyn ynglyn a'r ffens rhwng Pen Muriau ac Ael y Bryn, Rhosgadfan. Clerc wedi ysgrifennu yn nodi fod hawl cynllunio wedi'i dderbyn gan y Cynulliad. Daeth cais pellach i gael map o'r union leoliadau, anfonwyd map ato. Bellach mae'n gofyn am gael cyfarfod safle gan ei fod yn dadlau na chafwyd caniatad ar gyfer un ffens. Clerc wedi anfon manylion Cymad a chyswllt yn y Cynulliad ato. Aelodau wedi cynghori'r clerc i roi gwybod nad oes gan Gyngor Cymuned hawliau statudol i newid unrhyw ffens, ac felly nid oes pwrpas cael cyfarfod safle i drafod y mater. Ymhellach, mae'r aelodau'n hapus iawn gyda'r ffens ac nid ydynt yn awyddus i'w symud.

k) Materion godwyd gan AMJ: angen gofyn wrth Gyngor Gwynedd beth ydy'r opsiwn i wella'r sefyllfa ynglyn a cheisiadau cynllunio sy'n cyrraedd ar ôl cyfarfod misol cyngor cymuned; mae wedi gofyn am gael gosod giât ger mynedfa'r cae chwarae yn Saron fel nad ydy'r plant yn rhedeg allan yn syth i'r ffordd; cylchfan y Goat – arwyddion ar y ffordd – mae'n mynd i gysylltu i geisio darganfod beth ydy'r diweddara; arwyddion sy'n hysbysu gyrrwyr fod llwybr cyhoeddus yn croesi'r ffordd rhwng y Goat a'r Groeslon – eto mae AMJ yn mynd i weld beth ydy'r diweddara.

l) NE wedi cytuno i fod yn gynrychiolydd y cyngor ar bwyllgor ardal Un Llais Cymru.

7. **Derbyn Adroddiadau:**

Lein Bryngwyn – cyfarfu Elwyn Jones, clerc gyda swyddogion Gwynedd a cynrychiolwyr Rheilffordd Eryri i geisio bwrw 'mlaen efo'r cynllun i wella'r llwybr. Twrnai Cyngor Gwynedd yn ymchwilio ymhellach.

Arwyddion 30myw

Cyfarfu'r clerc ag Adrian Wyn Williams i ddangos fod rhannau helaeth o Rhos Isaf ddim wedi'i harwyddo'n 30myw. Cytunodd fod angen arwydd ger Penyceunant, am gyfeiriad Bryn Melyn ac efallai y byddai modd symud arwyddion o bentref Rhostryfan, ger Trem y Werydd, yn is lawr tuag at Glanywern.

8. **Is-bwyllgorau:**

9. **Materion Ariannol**

Cyfri Cadw:	17,679.03
Cyfri Siec:	1,310.90
IS-GYFANSWM	**18,989.93**
Praesept mis Ebrill	7,350.00
CYFANSWM	**26,339.30**

Taliadau:	
Cyflog/costau clerc – mis Mai	395.15
Cyllid y Wlad	97.35
Canolfan Bro Llanwnda – llogi'r neuadd	6.00
Tâl Aelodaeth SLCC	91.00
Eto i'w dalu: Cyngor Gwynedd – bil a rhybudd am yr arwyddion LED (dal yn ôl ar y taliad hyd nes bydd yr arwyddion wedi'u trwsio). Clerc wedi gofyn beth ydy'r sefyllfa ddiweddara, ond heb gael ymateb hyd yma gan Mel Fôn	8918.89

Materion Cynllunio

CO8A/0250/24/LL – Hafoty Ty Newydd, Rhosgadfan – ail gyflwyno cais a wrthodwyd am newid defnydd tir i gwrs dreifio cerbydau 4 x 4 – teimlo y byddai'r cynllun yma'n dirywio'r ffordd ac yn creu llygredd swn i'r trigolion lleol. Eisoes wedi'i wrthod unwaith.

CO8A/0275/24/LL – tir dros y ffordd i gapel Gorffwysfa – codi 4 ty i gyfarfod ag anghenion lleol – wedi derbyn sawl llythyr gan drigolion lleol yn gwrthwynebu'r cais hwn. Aelodau'n teimlo nad oes angen lleol gan fod nifer o dai gyda phris rhesymol eisoes ar werth yn yr ardal.

Dim gwrthwynebiad i'r canlynol:
CO8A/0286/24/LL – Ty'n Rhosgadfan, Rhosgadfan – dymchwel modurdy presennol a chodi un newydd
CO8A/0252/24/LL – Tal Braich, Rhosgadfan – adnewyddu bwthyn rhestredig ac estyniadau ochr
CO8A/0270/24/LL – Parc Newydd, Rhosgadfan – sied amaethyddol
CO8A/0300/24/LL – Cae Penrhos, Rhosgadfan – siec amaethyddol

Eisoes wedi'u caniatau:
Hafoty Penbryn – dymchwel ystafell wydr, codi estyniad deulawr, sied amaethyddol a stablau

Gohebiaeth:

a) Llythyr gan Alun Ffred Jones AC yn gofyn am ein sylwadau ynglyn a diffyg gwasanaeth band llydan yn yr ardal. Mae'n ceisio darganfod patrwm drwy'r sir i weld lle mae'r diffygion mwyaf. Nododd NE a GVT fod problemau yn ardal Rhosgadfan – yn enwedig yn y topiau uchaf. Hefyd nodwyd fod problemau gyda'r cwmni AOL yn yr ardal yn gyffredinol.
b) Cylchgronnau

10. **Materion i'w trafod yn y cyfarfod nesaf:**
    - **a)** GVT – torri gwair yn cae chwarae Rhosgadfan. AMJ yn mynd i holi be ydy'r posibiliadau.
    - **b)** MW – cerrig mân yn rhydd ar wyneb y ffordd o dan 'Rafon hen a thyllau yn y fordd i fyny am Bronallt.
    - **c)** JEJ – diffyg goleuadau y tu allan i Ganolfan Llanwnda
    - **d)** JH – wedi derbyn cwyn fod llwybr Cae Coch angen sylw

Er gwybodaeth: manylion cyswllt Aeron M.Jones
01286 832425
07882 847043
aeron@llaisgwynedd.com